***Statws*** *This is the original version (as it was originally made). Dim ond ar ei ffurf wreiddiol y mae'r eitem hon o ddeddfwriaeth ar gael ar hyn o bryd.*

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2005 No. 1313

## Rheoliadau Asiantaethau Mabwysiadu (Cymru) 2005

## RHAN 2

### ASIANTAETH FABWYSIADU — TREFNIADAU AR GYFER GWAITH MABWYSIADU

**Gofyniad i benodi cynghorydd asiantaeth i'r panel mabwysiadu**

**8.** Rhaid i'r asiantaeth fabwysiadu benodi uwch aelod o staff, neu yn achos panel mabwysiadu ar y cyd rhaid i'r awdurdodau lleol sy'n gyfrifol am y panel drwy gytundeb benodi uwch aelod o staff o un o'r awdurdau lleol hynny, (i'w alw'n "cynghorydd yr asiantaeth") gyda'r cymwysterau, y sgiliau a'r profiad y mae'r asiantaeth yn ystyried eu bod yn briodol —

(a) i gynorthwyo'r asiantaeth wrth benodi (gan gynnwys ailbenodi), terfynu ac adolygu penodi aelodau o'r panel mabwysiadu;

(b) i fod yn gyfrifol am gynefino a hyfforddi aelodau o'r panel mabwysiadu;

(c) i fod yn gyfrifol am weinyddu'r panel mabwysiadu, gan gynnwys cynorthwyo gyda chydlynu rhwng yr asiantaeth a'r panel mabwysiadu a monitro perfformiad aelodau o'r panel mabwysiadu; ac

(ch) i roi'r cyfryw gyngor i'r panel mabwysiadu y gall y panel ofyn amdano o ran unrhyw achos neu yn gyffredinol.